## Cyrraedd yno

**Car:** Cymerwch gyffordd 24 o'r M4 ac anelwch tua'r gogledd ar yr A449. Ar ôl sawl milltir cymerwch y gyffordd am Frynbuga a'r A472. Daliwch ymlaen ar y ffordd hon i fewn i Brynbuga nes y cyrhaeddwch bont yn croesi'r afon. Yn union ar ôl y bont, cymerwch y troad ar y chwith. Byddwch yn mynd heibio i gae rygbi Brynbuga ar y dde ac wedyn byddwch yn cyrraedd Eglwys Llanbadog ar y chwith. Yn union wedi'r eglwys trowch i'r chwith i lawr i Ynys Llanbadog.

**Bws:** Mae gennych y dewisiadau o naill ai fws Rhif 60 o Gasnewydd i Drefynwy neu fws Rhif 63 sy'n mynd o Gwmbrân i Gasgwent – mae'r ddau yn stopio yng nghanol Brynbuga ychydig oddi wrth Lanbadog.

Cefnogwyd gan

South East Wales RIGS Geoconservation

Llanbadoc Community Council

MonLife AWYR AGORED OUTDOOR

Coed Cadw Woodland Trust

Supported by players of People's Postcode Lottery

y cerddwyr ramblers cymru


www.ramblers.org.uk/wales

Mae Cymdeithas y Cerddwyr yn elusen gofrestredig (Cymru a Lloegr Rhif 1093577, yr Alban Rhif SC039799)

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu.


## Map daearegol

- Hen Dywodfaen Goch
- Gwelyau Uchaf Llanbadog a Llangybi
- Gwelyau Isaf Llanbadog
- Gwelyau coedwigoedd
- Calchfaen Wysg
- Creigiau hŷn




Mae'n cynnwys deunyddiau Arolwg Daearegol Prydain © UKRI 2019

## Mewngraig Wysg




Daeth afonydd â thywod a llaid i'r môr am filiynau o flynyddoedd gan gladdu...

Cafodd y creigiau eu plygu a'u gwthio i fyny yn gromen

Yna cafodd pen y gromen ei wisgo ymaith

- Cafodd y llaid a'r tywod coch hyn ei osod i lawr gan afonydd ar dir.
- Gall calch hydoddi o ffosiliau cragennog i ffurfio calchfaen galed. Mae hyn yn ffurfio mewn dŵr llai dwfn. Yn agos i dir mae tywod yn ffurfio tywodfeini gwydn.
- Mae'r cerrig llaid meddal hyn yn dod o laid a waddodwyd mewn dŵr dyfnach, tawelach ac mae'r ffosiliau wedi cadw'n well.
- Gall calch hydoddi o gwrelau hefyd mewn dŵr môr clir bas. Mae'r galchfaen hon yn bur iawn.

**Canfuwyd dros 130 o wahanol rywogaethau o ffosiliau ym Mewngraig Wysg. Maent o leiaf 150 miliwn o flynyddoedd yn hŷn na ffosiliau deinosoriaid!**

**430 miliwn o flynyddoedd yn ôl** cafodd y creigiau a welwch yma eu ffurfio mewn môr cynnes. **Sut?**

Oherwydd mae'r cyfandiroedd yn symud o amgylch y byd ar blatiau sy'n arnofio. Roedd ein plât ni, o'r enw Avalonia, i'r de o'r cyhydedd bryd hynny (tua lledred Brisbane, Awstralia, heddiw) ac roedd yn rhuthro tua'r gogledd (2 centimetr y flwyddyn) i wrthdaro â phlât arall o'r enw Laurentia.

Daeth afonydd â thywod a llaid i'r môr am filiynau o flynyddoedd, gan gladdu planhigion ac anifeiliaid cynnar a ddaeth yn ffosiliau.

Wrth i'r cyfandiroedd wrthdaro, llenwodd y môr i mewn a chododd y tir a daeth yn anialwch.

Yr unig reswm mae'r haenau o hen greigiau oddi tanodd yn ymddangos yma yw bod gwrthdrawiad arall 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl gyda chyfandir i'r de inni. Plygodd y creigiau a gwthio i fyny'n gromen. Cafodd ei gwisgo i lawr wedyn a'i thorri gan ffawtiau (lle bo creigiau'n llithro heibio i'w gilydd) pan agorodd Môr Iwerydd 200 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Gelwir y gromen hon o hen greigiau yn **Fewngraig Wysg**, ardal o hen greigiau Silwraidd wedi eu hamgylchynu gan greigiau anialwch Hen Dywodfaen Goch iau. Ar y map byddwch yn gweld ein bod ar ei hymyl dde-ddwyreiniol. Y bandiau glas yw'r creigiau mwy gwydn sy'n ffurfio tir uwch.

**Mae'r clogwyn yn Llanbadog wedi'i ffurfio o galchfaen wydn. Mae wedi cael ei chwarela ers dyddiau'r Rhufeiniaid.**




# Llwybr Daeareg Llanbadog

Addas i bob oed

## Mae'n Llwybr yn cychwyn yn...

**Llanbadog, oherwydd mae daeareg yn ddyledus iawn i ddyn a aned mewn tŷ gerllaw, sef Alfred Russel Wallace.** Gobeithiwn y bydd y llwybr hwn yn rhoi rhyw syniad ichi o ddaeareg y Ddaear o dan eich traed, a sut mae daearegwyr fel ditectifs sy'n rhoi'r dystiolaeth a'r cliwiau at ei gilydd i greu darlun o hanes y blaned gyfan.

## Darwin a Wallace

Sylwodd Darwin fod gwahaniaethau bach rhwng rhywogaethau a'i gilydd yn caniatáu i rai oroesi'n well nag eraill o dan wahanol amodau. Sylwodd Wallace fod rhywogaethau, pe baent yn cael eu gwahanu, yn amrywio o dan yr un amodau hyd yn oed.

Felly, pe byddai gwahanfur newydd yn datblygu byddai'r un rhywogaeth yn esblygu'n wahanol yn y lleoedd a fyddai bellach ar wahân. Gall daearegwyr edrych ar ffosiliau i weld sut sut roedd cyfandiroedd yn gysylltiedig â'i gilydd yn y gorffennol.



Daeth yn naturiaethwr enwog ac yn cyd-gyflwynydd (gyda Darwin) y theori Dethol Naturiol, mecanwaith esblygiad.

## Y Cod Cefn Gwlad

The Countryside Code – Respect · Protect · Enjoy

**Parchu pobl eraill**

- Ystyried y gymuned leol a phobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored.
- Gadael gatiau ac eiddo fel y maen nhw a dilyn llwybrau os nad oes mynediad ehangach ar gael.

**Gwarchod yr amgylchedd naturiol**

- Peidio â gadael unrhyw ôl o'ch ymweliad a mynd â'ch sbwriel adref.
- Cadw cŵn o dan reolaeth effeithiol.

**Mwynhau'r awyr agored**

- Cynllunio a pharatoi ymlaen llaw.
- Dilyn cyngor ac arwyddion lleol.

Llanbadog Cyngor Cymuned

**Ein harwydd yw cragen resog fach a elwir yn brachiopod, gan mai dyma'r ffosil mwyaf cyffredin. Dilynwch ein brachiopod gan ei fod yn helpu'ch arwain ar y daith.**




Mae'r daflen hon ar gael yn Saesneg.
This leaflet is available in English.

Am fwy o wybodaeth ar y llwybr, ffosiliau a chwis hwyl, ewch i **www.llanbadoc.org**
Am wybodaeth fanylach gweler **www.swga.org.uk**

# Llwybr Daeareg Llanbadog

**Cychwyn:**
Maes parcio Ynys Llanbadog
(SO 37709 00017)

**Map sydd ei angen:**
OS Explorer 152




Mae'r disgrifiad hwn o'r llwybr yn eich arwain o'r maes parcio ar Ynys Llanbadog, ond gallwch hefyd gychwyn y llwybr o faes parcio Maryport ym Mrynbuga, a maes parcio Coed Cadw, Cefn Ila. Mae'r llwybr i gyd ar hawliau tramwy cyhoeddus neu lwybrau â chaniatâd, felly dilynwch y Cod Cefn Gwlad. Gall y tir o dan draed fod yn llithrig mewn mannau felly mae angen esgidiau addas. Mae hefyd glogwyni chwarel uchel gyda llystyfiant a chraig a all fod yn ansefydlog, felly byddwch yn ofalus lle'r ydych yn cerdded.



**1** Trowch i'r chwith allan o'r maes parcio a cherdded i fyny i'r briffordd. Trowch i'r dde heibio i'r eglwys a chroesi'r ffordd ger tŵr yr eglwys pan fo'n ddiogel gwneud hynny. Cymerwch y llwybr wedi'i arwyddo i fyny'r dorlan.

**A** *Edrychwch ar wyneb y graig ar y dde ichi, y creigiau Silwraidd yw'r rhain. Cerrig llaid gyda rhywfaint o sment calch yw'r gwelyau hyn. Mae'r holl greigiau'r gromen yn cynnwys ffosiliau. Roedd y mathau o ffosiliau a geir yn y gwelyau hyn, a elwir ffawna yn galluogi daearegwyr i gyfrifo oed y graig. Roedd gan Avalonia a Laurentia ffawna ffosiliau gwahanol nes oeddent wedi cloi yn ei gilydd. Cafodd y gwelyau eu gwthio i fyny pan ffurfiodd y gromen.*

**2** Rydym nawr yn cerdded ar ymyl y Fewngraig. Ewch ymlaen i fyny'r llwybr heibio i gât lle mae'r llwybr yn troi'n serth i fyny a chroeswch y gamfa nesaf. Rydym nawr ar set wastad o gaeau hir. Cadwch i ochr dde'r caeau. Trwy'r coed gallwch weld tref Brynbuga ar lan yr afon ymhell isod.

**3** Cerddwch yn syth ymlaen trwy'r caeau gan groesi 2 gamfa arall. Wrth ichi gerdded i fyny'r ail gamfa daw'r Ysgyryd Fawr i'r golwg, wedyn Pen y Fâl sy'n edrych fel hen losgfynydd. Mae'r rhai hyn o Hen Dywodfaen Goch.

**4** I gael taith fyrrach gallwch barhau'n syth ymlaen. Byddwch yn mynd heibio i gamfa wrth fynd i lawr y clogwyn, ond mae hwn yn serth iawn, felly anwybyddwch hi a mynd ymlaen nes y dewch at y gamfa nesaf. Croeswch hon a byddwch yn mynd heibio i hen chwarel galchfaen ar y dde. Peidiwch â mynd ar gyfyl wynebau'r graig. Ewch wedyn ar y llwybr i lawr at y briffordd.



**5** Ar gyfer y brif daith hirach, ar ôl croesi'r gamfa cerddwch ymlaen tua hanner ffordd ar hyd y cae, wedyn cadwch i'r chwith a cherdded heibio i'r postyn trydan i barhau i fyny at gamfa.

**6** Croeswch y gamfa nesaf ond anwybyddwch y trac fferm ar y chwith a'r llwybr sy'n rhedeg ger clawdd ar y dde ichi. Mae angen ichi gerdded i fyny canol y cae hwn i fynd trwy gât i gae arall.



**Cymoedd heb afon – sydd weithiau'n ffawtlinau**



**7** Mae llwybr nawr yn mynd yn syth ymlaen trwy'r cae hwn i gyrraedd camfa. Defnyddir y cae hwn i dyfu cnydau'n dymhorol, felly gan ddibynnu ar adeg y flwyddyn gall fod angen ichi ddilyn llwybr ar hyd ymyl y cae.

**8** Ar ôl croesi'r gamfa cerddwch i lawr y cae a gwyro i'r chwith ar drac draw o adeiladau'r fferm at drac arall. Croeswch y trac hwn at fynedfa i safle Coed Cadw, Cefn Ila. Ewch yno i weld wyneb craig o gerrig llaid.

**B** *Cerrig llaid sy'n gwyro i lawr yn llai serth yw'r haenau yma. Dylent fod yn hŷn na'r creigiau ar Bwynt A ond mae'r ffosiliau'n dangos bod y creigiau'n iau. Mae eu safle wedi eu newid gan symudiad ar ffawtiau.*

**9** Ar ôl edrych ar y cerrig llaid anelwch i lawr y trac a chymryd y llwybr ar y dde ichi sy'n mynd i lawr i'r coed. Dilynwch hwn heibio i lyn bach ac i fyny'r ochr arall. Rydych yn cyrraedd llwybr llydan, ewch i'r chwith ac wedyn i'r dde. Cerddwch i lawr y trac hwn i gyrraedd y tiwbglychau ac ar y dde ichi mae Calchfaen Wysg. Ar ôl archwilio'r galchfaen ewch yn ôl i'r prif drac ac anelu i'r dde. Dilynwch hwn i fyny ac o amgylch nes cyrraedd gât mochyn yn arwain i gae arall. Cerddwch ar draws y goedlin gan anwybyddu camfa i fyny ar y dde. Mae'n camfa ni ynghudd yn y coed.

**C** *Calchfaen Wysg yw hon. Mae'r creigiau yn weddillion riff cwrel yn llawn o ddarnau ffosiliau lili'r môr (crinoid). Dyma'r graig hynaf rydym wedi'i gweld hyd yma. Edrychwch arni.*

**10** Ewch i'r coetir gyda'r llwybr yn mynd â chi i lawr ac o amgylch i'r dde. Byddwch yn cyrraedd llwybr byr ar y chwith at gamfa i gae arall. Cerddwch ar draws top y cae hwn ond cymerwch saib hanner ffordd ar hyd-ddo i weld Pen y Fâl a melin wynt Llancaeo.

**D** *Rydych nawr yn edrych i'r gogledd i fyny Dyffryn Wysg. Mae canol Mewngraig Wysg ar y chwith wrth res amlwg o goed. Llifai rhewlif Wysg i lawr y dyffryn rhwng y Blorens a Phen y Fâl, a phan feiriolodd gadawodd dwmpath o dywod a gro (marian) yn ffurfio crib ar draws y dyffryn o'r enw Cefn Mawr.*

**11** Daliwch ymlaen ar draws pen y cae i gyrraedd gât a chamfa. Trowch i'r dde i fyny'r trac ac yna i'r chwith cyn gât i gerdded ar hyd y ffens nes dewch at gamfa ger coeden ffawydd anferth. Croeswch y gamau a cherdded i'r dde lle gwelwch chwarel yng Ngwelyau Isaf Llanbadog.



**E** *Peidiwch â mynd ar gyfyl wyneb y graig ond wrth edrych o bellter gallwch weld band o graig fwy cnapiog tua metr o'r gwaelod. Mae hwn yn fand o galchfaen fwy cywasgedig lle mae'r galchfaen wedi ffurfio cnepynnau caled. Mae llawer o ddarnau rhydd i edrych arnynt. Maent ychydig yn iau na'r creigiau yn A.*

**12** Ewch yn ôl at y gamfa rydych newydd ei chroesi ac anelwch i lawr y rhiw i'r chwith yn gyfochrog â'r nant.

Croeswch 2 gamfa gan anwybyddu pontydd troed ar y dde ichi. Daliwch ymlaen i groesi pont droed i gael lle byddwch yn cerdded heibio i glawdd a nant ar y chwith ichi.

Daliwch ymlaen nes dod at lwybr gerllaw tai sy'n eich arwain i lawr i'r briffordd. Croeswch y ffordd hon yn ofalus a throi i'r dde cyn cymryd y grisiau i fyny a throsodd i'r caeau chwarae. Cerddwch ar hyd yr afon heibio i gae chwarae plant.

Daliwch ymlaen ar y llwybr hwn lle byddwch, yn y diwedd, yn gallu gweld yr Hen Dywodfaen Goch ar y bont o'ch blaen wrth ichi godi i gyfarfod y briffordd. Ar y pwynt hwn gallwch droi am Frynbuga am luniaeth.

Mae'r llwybr yn parhau ar draws y ffordd – byddwch yn ofalus wrth groesi – lle byddwch yn dilyn y ffordd yn ôl i Ynys Llanbadog.

**13** Ar eich ffordd yn ôl i'r maes parcio, unwaith y byddwch wedi mynd heibio i'r cae rygbi, chwiliwch am y tŷ olaf o dan y clogwyni. Tŷ Wallace oedd hwn.

Mae mainc er cof amdano ar lan yr afon, ac wrth ichi ddilyn y ffordd a chadw i'r chwith cyn yr eglwys fe welwch garreg goffa. Cerddwch heibio i hon i gyrraedd y maes parcio lle gwnaethoch chi gychwyn. Roedd Wallace wedi'i gyfareddu gan y byd naturiol a gobeithiwn y bydd ein taith trwy'r daeareg lleol yn Llanbadog yn deyrnged addas iddo!

